

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3/9/2019

**Presennol:** Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones,, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2024** Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r Clerc a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth ddiweddar. Estynnwyd croeso arbennig i Simon LL Roberts, Uwch Warden Parc Cenedlaethol Eryri.

**2025** Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Simon Roberts, a amlinellodd cylch gwaith wardeiniaid y Parc. Soniodd am y toriadau caled a fu mewn nifer y staff a'r adnoddau, a dangosodd luniau o'r tomen bagiau o sbwriel a gasglwyd o flaendraeth Llyn Tegid ar ôl un penwythnos braf. Soniodd hefyd am barodrwydd y Parc i weithio'n agos gyda'r Cyngorau Cymuned e.e. partneriaethu ar greu cylchdaith. Roedd diddordeb mewn prosiect o greu map manwl o enwau ar ardaloedd a chaeau yn yr ardal, ac addawodd cyd-weithio'n agos gydag Alan Jones Evans ar y prosiect hwn. Soniwyd hefyd am greu gardd dawel ym mhen pellaf y fynwent, a dywedwyd y byddai cyngor a chymorth ar gael gan y Parc wrth wneud hyn hefyd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo.

**2026** **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2027** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2il, 2019.

**2028** **Materion y Clerc o'r Cofnodion:**

2016: **Bash Mawr Y Bala** – cafwyd adroddiad gan Arwel Lloyd Jones o gyfarfod a drefnwyd ar fyr rybudd i arfarnu trefniadau eleni; roedd wedi tynnu sylw'r trefnwyr at broblemau ar ffordd Llangywer a system rheoli trafndiaeth aneffeithiol. Cytunwyd i ofyn i Simon Roberts bwysu am gyfarfod o'r rhan-ddeiliaid i wneud arfarniad llawn a theg, ac i drafod cefnogaeth i unrhyw ddiwyddiad a drefnir yn y dyfodol.

2020: **Porth yr Eglwys:** Adroddiad y Clerc fod y gwaith brys wedi ei wneud ar do'r Porth yn syth ar ôl Cyngor Gorffennaf. Diolchwyd i Adran Adeiladau Cyngor Gwynedd am drefnu fod awdurdodau'r Eglwys yng Nghymru yn gwneud y gwaith hwn. Er yr addewidion, nid yw'r gwaith adfer wedi ei wneud i'r prif adeilad hyd yn hyn.

2020: **Llwybr y Cei:** Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod 3/7/19 pryd y cytunwyd i greu Cytundeb newydd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.

2022: **Cyflwyniad** i'r Cyngor ar Gynllunio - cadarnhawyd y bydd Sara D Thomas, Parc Cenedlaethol Eryri, aelod o'r adran bolisi a chynrychiolydd o Tai Teg yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor i

- egluro'n fyr bolisiau diweddar a all effeithio ar yr ardal hon
- ymateb i anghenion lleol am dir adeiladu tai newydd

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

**2029 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Alan Jones Evans a ddywedodd ei fod wedi trafod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd yr angen i farcio'r safle bws gyferbyn â'r Eglwys rhag i bobl barcio yno. Y farn ddiweddar ydyw nad yw twmpathau i arafu traffig mewn pentref bellach yn effeithiol, ac mae hyn wedi ei drafod gyda Swyddog a fydd yn edrych mewn i'r opsiynau eraill sydd ar gael. Diolchodd i Gyngor Gwynedd am dorri gwair ym Mhenantlliw drannoeth ar ôl derbyn gwybodaeth fod angen ei dorri. Mynegodd y Cyngorwyr eu gwerthfawrogiad o waith y tîm lleol sy'n torri'r gwair eleni, a diolchwyd iddynt am eu gwaith taclus a thrylwyr. Ychwanegodd y Cyngorydd ei fod yn annog ail edrych ar fanylion y contract i ymateb i anghenion lleol, er mwyn lleihau torri lle mae defaid yn pori ac ychwanegu toriad mewn mannau eraill. Diolchwyd iddo am ei waith a'i adroddiad.

**2030 Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyn Adroddiad Karl Jones

- i. Toiledau: derbyniwyd prisiau ar gyfer uwchraddio a chytunwyd i holi am grantiau (Karl Jones a Lindsey Ellis Edwards).
- ii. Y Fynwent: mae'r gwaith o glirio'r coed ar y gweill; gall hwn fod yn safle ar gyfer gardd dawel. Derbyniwyd yn ddiolchgar cynnig Huw P Roberts a Karl Jones i wneud gwaith ar wrych y maes parcio. Diolchwyd i Alan Jones Evans, Gareth Owen, Emyr Puw a'r swyddogion am baratoi'r fynwent o flaen angladd.
- iii. Ciosg Penantlliw a'r ardal o gwmpas: adroddodd Alan Jones Evans fod pethau'n symud ymlaen gan bwyll.
- iv. Paneli gwybodaeth – disgwylir cadarnhad o'r caniatâd cynllunio yn fuan.

**2031 Materion ariannol:** Derbyniwyd adroddiad manwl gan y SAC o'r sefyllfa ariannol. Derbyniwyd ail hanner y Praesept. Nid oedd taliadau i'w gwneud. Adroddwyd fod y Cadeirydd a Chadeirydd yr is-bwyllgor cyllid wedi astudio'r cynigion sydd ar gael ar gyfer darparu trydan i'r toiledau, ac wedi cytuno i ymestyn y cytundeb presennol am 3 mlynedd. Cymeradwywyd hyn.

**2032 Materion lleol:** Trafodwyd eto y broblem parcio ym Maesypanyd.

Cytunwyd eto i fynegi pryderon dwys am oryrru rhwng Ainon a'r pentref ac i ofyn am y camera goryrru; mae tystion i sawl achos a oedd yn agos iawn at fod yn ddamweiniau difrifol.

**2033 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr, Huw Antur ac Alwyn E Jones.

**2034 Gohebiaeth:**

**1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

Cymeradwywyd cais NP5/71/269H Bwch yn Uchaf

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

Cytunodd Huw Antur a Rhodri Prys Jones i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid.

2. **Llywodraeth:** Derbyniwyd gwybodaeth am ddyletswydd newydd ar gynghorau i adrodd ar fioamrywiaeth; cytunodd Huw P Roberts i godi'r mater ym mhwyllgor ardal Un Llais Cymru.
3. **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth y bydd gwaharddiad parcio wrth gyffordd Maesypanyd.
4. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am Raglen Hyfforddiant.
5. **Arall:**
  - i. Derbyniwyd gwybodaeth am Rali Cymru GB ar 4/10/19.
  - ii. Derbyniwyd pecyn o wybodaeth gan y Farwnes Eluned Morgan AC.

*Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Hydref 1af 2019 yn y Neuadd Bentref*